# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 8 Medi 2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes

5 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

*Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog fanylu faint o bobl a gyflogir yn swyddfa breifat pob Gweinidog, gan ddadansoddi'r ffigur hwn yn ôl niferoedd y staff fesul swyddfa a fesul blwyddyn er 2007. (WAQ56462)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Nodir y wybodaeth yn y tabl isod.

| Swyddfeydd Preifat Gweinidogol: Niferoedd Staff | | | |
|---|---|---|---|
| **Swyddfa Breifat** | **2007 (Medi)** | **2008 (Gorffennaf)** | **2009 (Tachwedd)** |
| Prif Weinidog Cymru | 6 | 8 | 7 |
| Dirprwy Brif Weinidog Cymru | 6 | 6 | 6 |
| Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 4 | 4 | 5 |
| Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio | 2 | 2 | 4 |
| Y Gweinidog dros Dreftadaeth | 4 | 5 | 4 |
| Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 5 | 6 | 6 |
| Y Dirprwy Weinidog dros Dai | 2 | 2 | 2 |
| Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 6 | 6 | 7 |
| Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau | 2 | 2 | 2 |
| Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 6 | 6 | 6 |
| Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol | 3 | 4 | 3 |
| Y Gweinidog dros Faterion Gwledig | 5 | 5 | 5 |
| Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus | 4 | 4 | 5 |
| **CYFANSWM** | **55** | **60** | **62** |

| Swyddfa Breifat | 2010 (Cyfredol - Medi) |
|---|---|
| Prif Weinidog Cymru | 6 |
| Dirprwy Brif Weinidog Cymru | 5 |
| Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 4 |
| Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau | 3 |
| Y Gweinidog dros Dreftadaeth | 3 |
| Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 4.5 |
| Y Dirprwy Weinidog dros Dai | 3 |
| Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 5 |
| Y Dirprwy Weinidog dros Blant | 2 |
| Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 6 |
| Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol | 2 |
| Y Gweinidog dros Faterion Gwledig | 4 |
| Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb | 4 |
| **CYFANSWM** | **51.5** |

Noder:
Y ffigurau yw'r nifer hysbys o staff ar gyfer y misoedd hynny y mae gennym ffigurau ar eu cyfer. Ar gyfer unrhyw flwyddyn, gall nifer y staff mewn rhai swyddfeydd fod wedi amrywio ychydig o fewn y flwyddyn honno.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion am effaith ailstrwythuro Adran yr Economi a Thrafnidiaeth ar lefelau staff, gan roi dadansoddiad o'r niferoedd staff y cynigiwyd pecyn dileu swydd iddynt neu eu hadleoli mewn adrannau eraill, neu sydd ar gyfnod o 'absenoldeb garddio' ar hyn o bryd. (WAQ56463) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan yr Ysgrifennydd Parhaol***

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

**Yr Ysgrifennydd Parhaol (Y Fonesig Gill Morgan):** The proposed restructuring of the Department for Economy and Transport is currently in a formal consultation phase with the trade unions. Final structures are not due to be published until 28 September. We will not know the full impact on staffing until the HR processes to populate the new structure are completed, which are anticipated to be late November/early December. There are currently 17 members of staff, formerly attributed to DE&T, in the redeployment pool. There is no member of Welsh Assembly Government staff on gardening leave.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*

**Veronica German (Dwyrain De Cymru):** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wario ar offer swyddfa â brand arno bob blwyddyn er 2007/08, wedi'i ddadansoddi yn ôl math o offer swyddfa. (WAQ56455)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

Welsh Assembly Government does not generally pay for letter headed paper to be printed externally. Instead a simple logo is held within an electronic template and incurs no additional printing costs.

Some branded stationary is printed and this is listed below, on the basis of available information:

| **Business Cards ( all departments)** | |
|---|---|
| 2007/08 | £22,194 |
| 2008/09 | £16,805 |
| 2009/10 | £17,893 |

| **Visit Wales** | | |
|---|---|---|
| 2007/08 | £8,730 | Campaign Response Envelopes |
| 2008/09 | £7,100 | Campaign Response Envelopes |
| 2009/10 | £7,100 | Campaign Response Envelopes |
| | | |
| 2007/08 | Not available | Campaign Response Stationary |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 2008/09 | Not available | Campaign Response Stationary |
| 2009/10 | £2,478 | Campaign Response Stationary |
| | | |
| 2007/08 | £8,730 | Campaign Response Envelopes |
| 2008/09 | £7,100 | Campaign Response Envelopes |
| 2009/10 | £7,100 | Campaign Response Envelopes |
| | | |
| 2007/08 | Not available | Visit Wales Letterheads/Compliment Slips |
| 2008/09 | £965 | Visit Wales Letterheads/Compliment Slips |
| 2009/10 | £2,305 | Visit Wales Letterheads/Compliment Slips |

| **Permanent Secretary, Ministerial Offices and other Departments through Print Unit** | | |
|---|---|---|
| 2007/08 | Not available | Letterheads |
| 2008/09 | £5,830 | Letterheads |
| 2009/10 | £4,310 | Letterheads |
| | | |
| 2007/08 | Not available | Compliment Slips |
| 2008/09 | £785 | Compliment Slips |
| 2009/10 | £580 | Compliment Slips |
| | | |
| 2007/08 | Not available | Envelopes |
| 2008/09 | £797 | Envelopes |
| 2009/10 | £1078 | Envelopes |
| | | |
| 2008-2010 | £371 | Continuation Sheets |
| | | |
| 2008-2010 | £239 | Notepads |

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi cyfanswm gwariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar brynu hysbysebion ar orsafoedd radio masnachol yng Nghymru, gan ddarparu ffigurau ar gyfer pob un o'r pedair blynedd diwethaf. (WAQ56461)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The table below provides information on commercial radio advertising spend for the years that you requested:

| **Advertising Category** | **2006/07 £** | **2007/08 £** | **2008/09 £** | **2009/10 £** |
|---|---|---|---|---|
| Radio advertising | 227,671 | 388,910 | 260,346 | 502,362 |

Radio advertising spend is closely related to the need to raise awareness of important matters of public interest and the take up of public services, as a result, costs will rise or fall year on year. There were more campaigns in 2009-10 than the preceding years reflecting priority issues occurring during that period such as Swine Flu, Alcohol Awareness Week, Apprenticeship Week and Waste Awareness.

Includes costs of £40,034 in 2008-09 and £24,009 in 2009-10 for the All Wales Convention.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** O ran yr adroddiad ar ddyfodol Careers Advise yng Nghymru, "Adolygiad o Wasanaethau sy'n Ymwneud â Gyrfaoedd", (a) pryd caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi a'i ddarparu i ddarparwyr cyfarwyddyd gyrfaoedd, a (b) pryd caiff ymateb y Gweinidog i'r adroddiad a'i argymhellion ei gyhoeddi. (WAQ56449)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Daeth yr adroddiad 'Future Ambitions: Developing Careers Services in Wales', gan Dr Haydn Edwards a'i dîm, i law ar 22 Mehefin 2010. Mae'r adroddiad yn cynnwys tua 60 o argymhellion manwl sydd â'r potensial i gael effaith ar draws cryn dipyn o'r system dysgu gydol oes a thu hwnt. Bu fy swyddogion yn asesu'r argymhellion dros yr haf a byddaf yn ystyried eu canfyddiadau dros y misoedd i ddod. Felly, rwy'n disgwyl dod i benderfyniad ar fy ymateb i'r adroddiad rywbryd yn ystod mis Hydref.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth*

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gamerâu ar yr A470 yn y Drenewydd, Powys, yng nghyswllt rheoli llif y traffig. (WAQ56444)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The cameras are not on the A470 in Newtown but on the A483. As part of the recent Tesco development and as part of their planning conditions from the local planning authority, Tesco was required to install CCTV cameras on the A483 through Newtown. These cameras will assist in the monitoring of the traffic conditions within the town.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd cost y gwaith o osod camerâu ar yr A470 yn y Drenewydd, Powys, yng nghyswllt rheoli llif y traffig. (WAQ56445)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The Welsh Assembly Government does not have this information as Tesco arranged for the works to be undertaken as part of the planning conditions for their development from the local planning authority. Tesco was responsible for the cost of the installation of the cameras. The cameras are not on the A470 in Newtown but on the A483.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd cost y gwaith a wnaed i wella ffordd yr A470 yn y Drenewydd, Powys, yng nghyswllt rheoli llif y traffig yn ystod 2009-2010. (WAQ56446)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The Welsh Assembly Government does not have this information as Tesco arranged for the works to be undertaken as part of the planning conditions for their development from the local planning authority. Tesco was responsible for the cost of the road improvements, which were to the A483 in Newtown not the A470.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa fudd a gafwyd o gamerâu llif traffig ar yr A470 yn y Drenewydd, Powys? (WAQ56447)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

The CCTV cameras on the A483, not the A470, in Newtown will assist in monitoring the traffic conditions in the town.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi unrhyw ohebiaeth, agendâu, manylion cyfarfodydd, memoranda ysgrifenedig neu unrhyw ddogfennau ysgrifenedig eraill sy'n berthnasol i weithredu'r cynllun llif traffig newydd yn y Drenewydd, Powys, er Chwefror 2010. (WAQ56448)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

I have no plans to publish any documentation.

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i swyddogion yn ddiweddar ynghylch Pont ar Ddyfi. (WAQ56450)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

I am kept fully briefed with regard to the progress being made with repairs to the bridge following the accident in June.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Pa gynlluniau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u rhoi ar waith i sicrhau y bydd mwy o gyfalaf ar gael i fusnesau bach a chanolig, ac a oes unrhyw gynlluniau i sefydlu cronfa cyfalaf menter i gefnogi busnesau cynhenid. (WAQ56464)

***Ni ddarparwyd cyfieithiad***

Businesses in Wales can access commercial finance from a variety of sources including Finance Wales. We are working with Chris Rowlands, author and chairman of the UK Government's 'Rowlands Review' (2009) into the availability of growth capital to small and medium-sized businesses, to gather expert advice on where the gaps currently exist and how we can leverage private sector investment. In addition, we are looking at the provision of micro-finance and the possibility of securing additional investment through European funds.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai*

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn addewid y Prif Weinidog yn y cyfarfod llawn ar 4 Mai 2010 bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cwrdd â darparwyr tanwydd i sicrhau y caiff targedau tlodi tanwydd eu cyrraedd yn y dyfodol, a wnaiff y Gweinidog amlinellu'n awr unrhyw gynlluniau i fynd

i'r afael â'r mater hwn yng Nghymru, yn ogystal â rhoi dyddiad diwygiedig ar gyfer cyrraedd y targedau. (WAQ56460)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Mae'r Strategaeth Tlodi Tanwydd a lansiwyd gennyf ym mis Gorffennaf yn nodi sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu mynd i'r afael â thlodi tanwydd.
Caiff data tlodi tanwydd Byw yng Nghymru ei gyhoeddi'n fuan, a bydd hwn yn helpu i lywio'r cynllun monitro a gwerthuso a fydd yn nodi sut y bydd cynlluniau arfaethedig yn effeithio ar nifer yr aelwydydd â thlodi tanwydd yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i weithio tuag at ddileu tlodi tanwydd ac rydym wedi buddsoddi arian ychwanegol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Rydym wedi ymrwymo dros £30 miliwn o arian ychwanegol a dderbyniwyd drwy'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol ar gyfer cam cyntaf arbed. Bydd yr arian hwn yn galluogi buddsoddiad mewn prosiectau perfformiad ynni domestig mawr ar draws Ardaloedd Adfywio Strategol Cymru a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi, yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd ac yn creu swyddi ar gyfer trigolion Cymru a chyfleoedd economaidd ar gyfer busnesau Cymru.

Yn ogystal cyhoeddais ar 17 Mawrth y byddai £34 miliwn o arian Ewropeaidd ar gael i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yng Nghymru, ac rydym yn gweithio ar gynigion i gyflawni'r buddsoddiad hwn ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynyddu'r arian ar gyfer y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref sydd wedi cynorthwyo dros 124,000 o aelwydydd yng Nghymru gyda mesurau gwresogi ac insiwleiddio ar gost o dros £134 miliwn ers dechrau'r cynllun yn 2001.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Yn y tair Canolfan Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yng Nghymru, pa systemau mesur sydd wedi'u rhoi ar waith, neu sydd yn yr arfaeth, i barhau â chronfa ddata ystadegol yng Nghymru sy'n cofnodi niferoedd a thueddiadau achosion cyfredol a newydd o bobl yn colli aelodau o'r corff, gan gynnwys cyfraddau marwolaeth, er mwyn gallu dylunio gwasanaethau sy'n diwallu'r angen. (WAQ56452)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Mater i'r Canolfannau Aelodau Artiffisial a Chyfarpar a'r Byrddau Iechyd Lleol yw cynllunio a darparu'r gwasanaeth hwn ar lefel leol.

**Veronica German (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o'r gwariant ar gyhoeddusrwydd NHSF yn y gyllideb ddiwethaf, ac yn benodol, beth sydd wedi'i gynnwys yn y llinell hon yn y gyllideb, beth oedd y costau gweinyddol, beth a gyflawnwyd gyda'r cyllid, y gwarian terfynol o'i gymharu â'r llinell hon yn y gyllideb, ac amcangyfrif o'r gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. (WAQ56454)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Cyhoeddir manylion yr holl wariant cyhoeddusrwydd a gymeradwywyd gennyf drwy Adroddiadau ar Benderfyniadau, a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Nid wyf mewn sefyllfa i ddarparu amcangyfrif o wariant ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ar hyn o bryd.

**Veronica German (Dwyrain De Cymru):** Gan gyfeirio at eich ateb i WAQ56289, a wnaiff y Gweinidog ddarparu cofnod manwl o'r pwysau yn ystod y flwyddyn ar y gyllideb iechyd hyd yma a beth oedd cost hynny, a beth yw'r pwysau a ragwelir ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, gydag amcangyfrif o'r costau. (WAQ56456)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Rwyf wedi cytuno i ddarparu tua £80m o arian hyd yma i ymdopi â phwysau sy'n dod i'r amlwg, yn cynnwys darparu arian i'r Ymddiriedolaeth Thalidomid ac ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

O ran amcangyfrif pwysau ar gyfer 2011-2012, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud tybiaethau darbodus wrth ddechrau paratoi ar gyfer y Gyllideb Ddrafft. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol dyfalu ar unrhyw effaith ar gyfer gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol nes bod canlyniadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn hysbys ym mis Hydref.

**Lynne Neagle (Torfaen)**: Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau na fydd y penderfyniad i roi'r gorau i ddefnyddio capasiti'r sector preifat yn y GIG yn arwain at gynnydd mewn amseroedd aros yng Ngwent. (WAQ56457)

**Lynne Neagle (Torfaen):** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau na fydd y penderfyniad i roi'r gorau i ddefnyddio capasiti'r sector preifat yn y GIG yn golygu na lwyddir i gyrraedd y targedau ar gyfer amseroedd aros yng Ngwent. (WAQ56458)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Disgwyliaf i bob Bwrdd Iechyd Lleol roi strategaethau ar waith i sicrhau bod ganddynt y gallu gofynnol ar sail gynaliadwy i drin pob claf o fewn y targedau amseroedd aros.

**Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chynlluniau ar gyfer Galw Iechyd Cymru. (WAQ56459)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Cynhelir adolygiad o wasanaethau gofal heb ei drefnu, yn cynnwys Galw Iechyd Cymru, fel rhan o'r Rhaglen Genedlaethol i wella gwasanaethau'r GIG.

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*

**Lynne Neagle (Torfaen):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad manwl o unrhyw arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i roi i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru drwy gyfrwng y rhaglen 'Buddsoddi i Arbed', i gefnogi'r bwriad i gyflwyno cynllun hunanrestru mewn gorsafoedd tân yng Nghymru. (WAQ56451)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Gallaf gadarnhau i gynnig hunan-drefnu cyfnodau dyletswydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gael ei ddewis fel prosiect a fydd yn cael arian o dan 2ail Rownd y Gronfa Buddsoddi i Arbed. Mae'r

dyfarniad yn fuddsoddiad ad-daladwy o £1.5 miliwn tuag at y gost o ddatblygu llety mewn tair gorsaf dân lle cynigir rhoi'r trefniadau newydd o ran criwiau ar waith. Fodd bynnag, mae'r buddsoddiad yn amodol ar Aelodau'r Awdurdod Tân yn cymeradwyo'r cynnig criwio newydd fel rhan o Gynllun Lleihau Risg Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru 2011-12. Felly'r Awdurdod Tân sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid bwrw ymlaen ai peidio, ac er mwyn llywio ei benderfyniad mae'n hanfodol y cynhelir ymgynghoriad trylwyr, yn enwedig gyda staff a rheolwyr.

**Veronica German (Dwyrain De Cymru):** Ar gyfer pob blwyddyn er 1999, a wnewch nodi a) faint o gyllid a roddwyd i Glymblaid Genedlaethol Menywod Cymru, a b) pwrpas pob elfen o'r cyllid a ddarparwyd. (WAQ56453)

***Rhoddwyd ateb ar 21 Medi 2010***

Dyfarnwyd £50,000 o arian craidd i Glymblaid Genedlaethol Menywod Cymru bob blwyddyn o 2002 tan 2005 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn 2005 dyfarnwyd tair blynedd arall o arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sef cyfanswm o £230,872 tan 31 Mawrth 2008.

Yn ystod yr adolygiad o'r Gronfa Hyrwyddo Cydraddoldeb, dyfarnwyd arian trosiannol i Glymblaid Genedlaethol Menywod Cymru ar ddau achlysur, yn 2008/09 ac eto yn 2009/10. Dyfarnwyd £78,797 iddynt ym mhob blwyddyn.